Adrodd i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	8 Mehefin 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Nicola Kneale, Pennaeth Dros Dro Gwella Busnes a Moderneiddio
Awdur yr adroddiad	Bob Chowdhury, Prif Archwilydd Mewnol
Teitl	Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. I ddangos llywodraethu da, rhaid i'r Cyngor ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd a nodir yn Fframwaith Darparu Llywodraethu Da o fewn Llywodraeth Leol (Cymru), rhifyn 2016. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) yn cael ei baratoi yn defnyddio hunanasesiad, ac yn adrodd ar drefniadau llywodraethu a gwelliant y Cyngor ar gyfer 2021-22, ynghyd â chynnydd yn rhoi sylw i'r camau gweithredu gwella a gynhwysir yn DLlB 2020-21. Mae'r DLlB yn cael ei adrodd fel rhan o'r "Datganiad Cyfrifon" terfynol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gyhoeddi DLlB yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018. Mae'r adroddiad yn rhoi'r cyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau ar ddatganiad llywodraethu blynyddol eleni ar wahân i'r Datganiad Cyfrifon er mwyn iddo gael ystyriaeth ddyledus.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn adolygu ac yn cymeradwyo fersiwn ddrafft y datganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer 2021-22 (Atodiad 1) ac monitro'r cynnydd a wnaed ar y cynllun gweithredu o 2020-21.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Datblygwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22 (Atodiad 1) drwy gynnal hunanasesiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn erbyn y Fframwaith Darparu Llywodraethu Da Mewn Llywodraeth Leol (Cymru), rhifyn 2016. Cynhaliwyd hyn gan grŵp swyddogion yn cynrychioli'r swyddogaethau llywodraethu allweddol o bob rhan o'r Cyngor. Mae'r DLlB yn cyfeirio at ffynonellau tystiolaeth a ffynonellau sicrwydd amrywiol megis Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol, Adroddiad Perfformiad Blynyddol, adroddiadau Archwilio Allanol, a chofrestrau risg.

4.2. Unwaith eto mae crynodeb o effaith Covid-19 ar drefniadau llywodraethu ac ystyriaethau mewn perthynas â gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi'i gynnwys yn y datganiad, ynghyd ag adolygiad o ddulliau gweithio newydd staff ac aelodau. Mae'r datganiad hefyd wedi adolygu cyfarfodydd pwyllgor a sut maen nhw'n bellach ar-lein ac yn cael eu gweddarlledu i sicrhau trefniadau llywodraethu da.

4.3. Mae'r DLlB yn tynnu sylw at unrhyw feysydd o welliant i drefniadau llywodraethu mewn cynllun gweithredu. Mae cynnydd yn erbyn cynllun gwella y flwyddyn flaenorol yn dangos cynnydd da ac mae unrhyw gamau gweithredu sydd yn parhau wedi cael eu cario ymlaen i gynllun gwella y flwyddyn bresennol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Er nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cyfrannu'n uniongyrchol at y blaenoriaethau corfforaethol, mae'n darparu asesiad a sicrwydd ar ddarpariaeth y Cynllun Corfforaethol, perfformiad gweithredol ac ariannol y Cyngor, trefniadau llywodraethu, ymgysylltu â'r gymuned ac ati sydd i gyd yn cael eu cyfeirio tuag at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gost uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Amherthnasol.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Fe luniwyd y DLlB gyda chyfraniad gan brif swyddogion llywodraethu. Cafodd ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a bydd yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru Gynt) fel rhan o'r Archwiliad cyfrifon ariannol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Amherthnasol.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Pe na bai'r Cynllun Gwella yn cael ei weithredu, byddai gwendidau yn aros yn nhrefn lywodraethol y Cyngor, a allai arwain at:

- Adroddiadau rheoleiddiol niweidiol;
- Defnydd gwael o arian cyhoeddus;
- Methiant i wella meysydd corfforaethol a meysydd gwasanaeth allweddol;
- Colli hyder budd-ddeiliaid; ac
- Effaith andwyol ar enw da'r Cyngor.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Amherthnasol.